

## **POLISI RHEOLI GWYBODAETH**

1. Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion ar gyfer rheoli gwybodaeth yn yr Ymchwiliad. Mae'n egluro sut y bydd yr Ymchwiliad yn rheoli gwybodaeth yn briodol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, i ddiwallu anghenion yr Ymchwiliad ac i greu adroddiad annibynnol.
2. Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â Phrotocol Gweithredol yr Ymchwiliad sydd ar gael ar wefan yr Ymchwiliad ([www.iqci.org.uk](http://www.iqci.org.uk)).

### **Gofynion cyfreithiol ar gyfer rheoli gwybodaeth**

3. Sefydlwyd yr Ymchwiliad o dan a.71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n grymuso Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol i “*do anything... which is calculated to facilitate, or is conducive or incidental to, the exercise of any of their other functions.*” Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r swyddogaeth berthnasol yw'r un a geir yn a.48 o Ddeddf 2006.
4. Mae'r Ymchwiliad yn cytuno â Llywodraeth Cymru mai Cofnodion Cyhoeddus Cymru yw ei chofnodion o fewn ystyr adran 148 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
5. Mae deddfwriaeth berthnasol arall yn cynnwys Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ('GDPR'), Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r rhain yn neilltuo cyfrifoldeb cyfreithiol i werthfawrogi, diogelu a storio gwybodaeth fel ei bod o ddefnydd i'r busnes ac i greu archif ar ddiwedd yr Ymchwiliad. Drwy ddilyn y polisi hwn bydd yr Ymchwiliad yn gallu cyflawni'r cyfrifoldeb

hwn.

6. Mae'r Ymchwiliad hefyd yn rhwym wrth delerau ei Brotocol Gweithredol.

### **Egwyddorion**

7. Er mwyn cyflawni ein gofynion statudol, mae'r Ymchwiliad yn addo:
  - Mai dim ond casglu, prosesu a chadw gwybodaeth sydd ei hangen i gynnal yr Ymchwiliad y bydd yn ei wneud;
  - Sicrhau bod y wybodaeth a ddelir gennym mor gywir â phosibl;
  - Na ddylid cadw'r wybodaeth am fwy o amser nag sydd ei angen;
  - Cadw cofnod cywir o ddata a brosesir gennym;
  - Sicrhau y caiff gwybodaeth ei phrosesu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch unrhyw ddata personol;
  - Creu cofnod parhaol yn unol â dyletswyddau'r Ymchwiliad o dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus.

### **Rolau a chyfrifoldebau**

8. Yr Ymchwilydd sydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw am gofnodion yr Ymchwiliad a rhaid iddo sicrhau bod swyddogaethau, polisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi'r Ymchwiliad ar hyd ei oes ac i lunio cofnod parhaol pan fydd yr adroddiad terfynol wedi ei gyhoeddi.
9. Bydd pob aelod o dîm yr Ymchwiliad yn sicrhau y cedwir cofnodion cynhwysfawr o weithgareddau'r Ymchwiliad, ei bod yn ofynnol iddynt weithio yn y systemau gwybodaeth gorfforaethol fel bod cofnodion ar gael i eraill, a bod cofnodion yn cael eu rheoli yn unol â'n polisi cadw a gwaredu.
10. Ysgrifennydd yr Ymchwiliad sy'n gyfrifol am gynnal cofnod o'r data a brosesir gan yr Ymchwiliad ac sy'n gyfrifol am reoli risgiau rheoli gwybodaeth yn wael.
11. Mae'r Swyddog Diogelu Data yn helpu'r Ymchwiliad wrth fonitro

cydymffurfiaeth fewnol â'r deddfau diogelu data, yn hysbysu ac yn cynghori ar rwymedigaethau diogelu data yr Ymchwiliad ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer testunau'r data. Mae'r Swyddog Diogelu Data yn gweithredu fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) ac yn gyfrifol am reoli risgiau rheoli gwybodaeth yn wael.

### **Cwmpas y polisi hwn; gwybodaeth fusnes a deunydd tystiolaethol**

12. Mae gwybodaeth fusnes yn cynnwys unrhyw ddogfen a gynhrychir gan yr Ymchwiliad yn ystod ei waith. Nid yw'n cynnwys deunydd tystiolaethol a gyflenwir gan ddarparwyr gwybodaeth.
13. Caiff cofnodion yr Ymchwiliad eu cadw'n ddigidol. Caiff dogfennau copi caled a dderbynnir neu a gynhrychir gan yr Ymchwiliad eu copïo a'u cadw'n ddigidol a naill ai cânt eu dychwelyd i'w tarddiad neu eu dinistrio. Cedwir negeseuon e-bost o bwys.
14. Cedwir gwybodaeth fusnes fel bod cofnodion pwysig yn dal i fodoli sy'n nodi:
  - penderfyniadau allweddol a'r modd y daethpwyd i'r penderfyniadau hynny (e.e. cofnodion cyfarfodydd, gohebiaeth cyn ac ar ôl y cyfarfod sy'n arwain at wneud penderfyniad a/neu gam a gymerwyd)
  - sut mae gweithdrefnau'n gweithio (e.e. gweithdrefnau gweithredu safonol a newidiadau iddynt),
  - trefniadau contractiol/prynu (e.e. contractau cyflenwi gwasanaeth, archebion prynu).
15. Disgwylir dogfennau tystiolaethol a datganiadau gan sefydliadau ac unigolion sy'n cyfrannu. Caiff y rhain eu rheoli fel bod gwybodaeth ond ar gael i'r rhai sydd angen cael gafael arni a'i rhannu er mwyn sicrhau y cyflawnir y gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol.

## **Sail gyfreithlon dros brosesu data o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data**

16. Sail gyfreithlon yr Ymchwiliad dros brosesu data personol yw bod angen gwneud hyn er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd, sef cynnal yr Ymchwiliad o fewn ei gyloch gorchwyl.
  
17. Sail gyfreithlon yr Ymchwiliad dros brosesu 'data categori arbennig' yw bod angen prosesu am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undeb neu Aelod-wladwriaeth a fydd yn gymesur â'r nod dan sylw, yn parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data ac yn darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau testun y data.

## **Prosesau Busnes**

18. Mae'r canlynol yn grynodedb o'r prosesau y bydd yr Ymchwiliad yn eu dilyn:
  - Mae'r Ymchwiliad wedi cyflwyno Cais am Dystiolaeth i wahodd pobl i gyflwyno tystiolaeth (er enghraifft gwybodaeth, dogfennau a datganiadau tystion);
  - Caiff yr holl dystiolaeth a dderbynnir ei storio'n ddiogel o fewn System Rheoli Dogfennau Digidol ('DDMS') yr Ymchwiliad;
  - Caiff tystiolaeth ei hadolygu a'i chategoreiddio i nodi gwybodaeth gyfrinachol sensitif y gall fod angen ei hailolygu;
  - Yn ystod yr ymchwiliad, efallai y caiff rhywfaint o dystiolaeth ei rhannu â Chyfranogwyr Craidd yr Ymchwiliad (gweler y polisi Cyfranogwyr Craidd ar wefan yr Ymchwiliad);
  - Cynhelir gwrandawiadau preifat lle y cyfeirir at rywfaint o'r dystiolaeth a'r wybodaeth gan Dîm yr Ymchwiliad a thystion;
  - Caiff adroddiad ei ysgrifennu, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a dderbyniwyd;
  - Ar ôl i'r Ymchwiliad ddod i ben, caiff cofnod o'r Ymchwiliad, gan

gynnwys tystiolaeth allweddol, eu diogelu a'u storio'n ddiogel. Ni chaiff Gweinidogion presennol Cymru, Gweinidogion Cymru yn y dyfodol na'u Cyngorwyr Arbennig fynediad at gofnod yr Ymchwiliad.

### **Cyfrinachedd a rhannu a thrin data**

19. Gall yr Ymchwilydd ddefnyddio unrhyw wybodaeth (gan gynnwys dogfennau) a ddarperir iddo er mwyn cyflawni ei Gylch Gorchwyl:
  - a. Weithiau bydd angen i'r Ymchwiliad rannu gwybodaeth â phobl fel y Cyfranogwyr Craidd. Gwneir hyn yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau marcio amddiffynnol a thrin data diogelwch y Llywodraeth, ac yn unol â'r Protocol Gweithredol (yn enwedig paragraffau 16, 17, 20, 21 a 22).
  - b. Yn ddarostyngedig i baragraff 14 uchod a'r Protocol Gweithredol, ni chaiff data personol eu rhannu ag eraill oni fydd y Cylch Gorchwyl yn gofyn am hynny ac os bydd yr Ymchwiliad yn credu bod angen rhannu data o'r fath.
  - c. Caiff gwybodaeth ei chyhoeddi yn adroddiad terfynol yr Ymchwiliad, lle mae angen gwneud hynny, ar y cyd â'r Protocol Gweithredol (paragraff 21) ac o fewn y Cylch Gorchwyl.
  - d. Os bydd yr Ymchwilydd o'r farn bod angen cyhoeddi gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswydd o dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu ei ddyletswyddau o ran cyfraith gyffredin, bydd yn gwneud hynny yn unol â pharagraff 22 o'r Protocol Gweithredol.
20. Ni chaiff unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r Ymchwiliad o dan amodau datganedig cyfrinachedd ei datgelu i eraill na'i chyhoeddi heb gydsyniad yr unigolyn.
21. Yn unol â pharagraffau 16-17 o'r Protocol Gweithredol, ni fydd yr Ymchwiliad

yn gwneud unrhyw beth sy'n golygu bod modd adnabod achwynydd mewn perthynas ag ymddygiad Carl Sargeant oni fydd wedi rhoi ei gydsyniad blaenorol i ddatgelu hynny.

22. Cofrestrir yr Ymchwiliad gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel rheolydd data gan mai'r Ymchwiliad sy'n penderfynu sut y caiff data personol a phersonol sensitif (neu ddata categori arbennig o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) eu prosesu. O ystyried natur y testun a gwmpesir gan yr Ymchwiliad, caiff y tîm gyngor ar sut i gymryd gofal priodol wrth drin data personol er mwyn sicrhau na cheir achosion o dorri Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data na'r polisïau ymchwilio.

### **Ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

23. Mae'r Ymchwiliad yn "ymchwiliad" at ddibenion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Felly, wrth i'r Ymchwiliad fynd drwy ei waith a chyn iddo ddod i ben, nid yw'r Ddeddf yn gymwys ac ni chaiff unrhyw geisiadau am wybodaeth a wneir o dan y Ddeddf eu hystyried.

### **Diogelwch gwybodaeth**

24. Bydd tîm yr Ymchwiliad yn dilyn polisïau trin dogfennau a desgiau clir. Bydd staff yn ufuddhau i'r angen am ddiogelwch wrth weithio gartref drwy beidio â symud deunydd ffisegol o amgylchedd y swyddfa nac o wrandawladau. Cyhyd â phosibl, ni chaiff dogfennau digidol eu hargraffu; lle bo angen argraffu, caiff copïau papur eu dinistrio mewn modd diogel pan na fydd eu hangen mwyach. Ni fydd staff yn defnyddio cyfrifon e-bost personol ar gyfer busnes yr Ymchwiliad.

### **Cadw a gwaredu gwybodaeth**

25. Bydd yr Ymchwiliad yn rheoli ei gofnodion yn effeithiol ac ond yn eu cadw

cyhyd ag y bo angen i ddiwallu anghenion busnes a gofynion statudol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn, caiff cyfnodau cadw eu neilltuo i gofnodion er mwyn sicrhau bod cofnodion ar gyfer pob swyddogaeth yn cael eu cadw am y cyfnod priodol o amser, ond dim mwy na hynny. Bydd pob rhestr gadw yn cael ei chymeradwyo gan yr Ymchwilydd.

26. Ar ôl i'r Ymchwiliad ddod i ben, caiff cofnod o'r Ymchwiliad, gan gynnwys tystiolaeth allweddol, eu cadw mewn archif diogel er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ymchwiliad o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Ni chaiff Gweinidogion presennol Cymru, Gweinidogion Cymru yn y dyfodol na'u Cynghorwyr Arbennig fynediad at gofnod yr Ymchwiliad.

### **Chi - Sut i gael mynediad at eich data**

27. Os oes gennym ddata amdanoch chi, mae gennych yr hawl i ofyn am gopi ohono fel Cais Gwrthrych am Wybodaeth. Os hoffech wybod pa ddata a ddelir amdanoch chi, neu i wneud Cais Gwrthrych am Wybodaeth, cysylltwch â [secretary@iqci.org.uk](mailto:secretary@iqci.org.uk). Nid ydym yn codi tâl am ddarparu'r data hyn i chi. Gallwch ofyn hefyd i ni ddiwygio neu ddileu eich data.
28. Os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd y mae'r Ymchwiliad yn ymdrin â'ch data, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data, Gillian Body, yn [dpo@iqci.org.uk](mailto:dpo@iqci.org.uk).